

## 2

## Gair gan y Pennaeth / Letter from the headteacher

Annwyl riant/ofalwr,

Ar derfyn tymor prysur arall hoffwn ddiolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

Hoffwn hefyd longyfarch plant yr ysgol wnaeth gymryd rhan yng nghyngerdd Sinfonia Cymreig ar y Campws Uwchradd a hefyd ym mherfformiad Iasoer ar y Campws Cynradd. Cadarnhaodd y ddwy noson hon bod talentau anhygoel yn yr ysgol gan y plant a hefyd gan y staff a fu wrthi'n eu dysgu. Roedd safon perfformio yn y ddwy gyngerdd yma'n wych.

Bydd Miss Alice Haslam yn ein gadael ddiwedd y tymor i fynd i ddysgu yn Ysgol Uwchradd Rhosnesni, Wrecsam. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn iddi am ei gwaith yn ystod ei chyfnod yn yr ysgol a dymuno'n dda yn ei swydd newydd. Bydd Mr Joseph Mitchell yn cymryd ei lle dros dro. Hefyd penodwyd Mrs Sian Speake fel cymhorthydd ar y safle cynradd; hoffwn ei llongyfarch ar gael ei phenodi a'i chroesawu i'r ysgol. Mynd i deithio o gwmpas y byd mae Sian Lewis bydd hi'n ein gadael cyn y Nadolig; hoffwn ddiolch yn fawr iawn iddi am ei gwaith a gobeithio y gwnaiff fwynhau yr antur newydd.

Fel y gwyddoch, mae Mrs Gwenfair Glyn wedi ymddeol erbyn hyn. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn iddi am bob cefnogaeth a gefais i yn bersonol ganddi ac hefyd am y blynyddoedd o wasanaeth a roddodd i'r ysgol. Hoffwn ddymuno'r gorau iddi ar ei hymddeoliad.

Hoffwn groesawu pum plentyn newydd sydd yn dechrau yn y cyfnod sylfaen ar y pedwerydd o Ionawr a dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb.

**Dafydd M B Jones**  
Pennaeth  
Ysgol Bro Hyddgen

Dear Parent/Carer,

At the end of another busy term I'd like to thank you for your continued support throughout the year.

I would also like to congratulate the pupils who took part in the Welsh Sinfonia Concert on the Secondary Campus and the production of Frozen on the Primary Campus. These two nights confirmed to me that we have very talented children and staff who gave up their time for rehearsals. The standard of performance in both these concerts was excellent.

Miss Alice Haslam will be leaving us at the end of this term to start a new post in Rhosnesni High School, Wrexham. I'd like to thank her for her work during her time here and wish her well in her new post. Mr Joseph Mitchell will be replacing her. Mrs Sian Speake was also appointed as a Learning Support Assistant in the primary campus. Miss Sian Lewis will be leaving us to travel around the world; I'd like to thank her for her hard work and wish her well on her adventures.

Mrs Gwenfair Glyn retired at the end of November. I'd personally like to thank her for her support and the years of service that she gave the school and wish her all the best on her retirement.

I'd like to welcome five new pupils starting in the Foundation Phase on January 4th.

I hope you will all have a Merry Christmas and a Happy New Year.

**Dafydd M B Jones**  
Headteacher  
Ysgol Bro Hyddgen

